

- Pasiodd 56 o gynrychiolwyr yr hyfforddiant Codi a Chario
- Cymerodd 60 o gynrychiolwyr ran yn hyfforddiant Language Link
- Aeth 73 aelod o staff addysgu i hyfforddiant Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig (ASD) / Ymwybyddiaeth Awtistiaeth
- Aeth 56 aelod o staff cynnal dysgu i hyfforddiant BSquared
- Manteisiodd 71 o gynrychiolwyr ar hyfforddiant ar-lein wedi'i ddarparu gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysg

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg / You are welcome to communicate with us in Welsh.

Llyfryn Hyfforddiant 2020 - 2021

Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant

01443 744333

Cyflwyniad

Mae'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yn falch o rannu llyfryn hyfforddiant y flwyddyn yma â chi. Rydyn ni wedi bod yn adolygu ein cynnig hyfforddi i addasu a datblygu cymaint o'n cyrsiau hyfforddi â phosibl er mwyn eu cynnal ar-lein. Rydyn ni'n gobeithio y bydd hyn yn golygu y caiff ysgolion barhau i fanteisio ar hyfforddiant o safon uchel yn yr amgylchiadau heriol presennol.

Bydd diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN) yn dechrau dod i rym o fis Ionawr, lle bydd rôl y Cydlynnydd ADY yn dod yn statudol a bydd y diwygiadau yn cael eu cyflwyno'n ehangach o fis Medi 2021. Rydyn ni wedi gwella ein cynnig Fforwm i Gydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig / Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol trwy gydol y flwyddyn yma. Rydyn ni hefyd yn gobeithio sicrhau hyfforddiant wedi'i ariannu i ysgolion gan sefydliadau allanol. Bydd manylion hyn yn cael eu rhannu cyn gynted ag y maen nhw'n cael eu cymeradwyo.

Rydyn ni'n cynnig hyfforddiant gan gynnwys cyrsiau sydd wedi'u trefnu'n ganolog a chysiau ar ffurf dewislen. Mae modd eu darparu yn yr ysgol yn rhan o sesiwn gyda'r hwyr neu ddiwrnod HMS. Rydyn ni'n fodlon darparu hyfforddiant ar gyfer holl staff yr ysgol, llywodraethwyr neu rieni.

Os nad oes unrhyw un o'r sesiynau hyfforddi yn bodloni'ch anghenion, cysylltwch â Ryan Phillips. Bydd modd iddo roi cyngor i chi yn glân ag opsiynau DPP eraill sydd ar gael drwy'r Gwasanaeth Cynhwysiant a Mynediad.

Kate Hill
Pennaeth y Gwasanaeth Cynnal Dysgu.

**Sylwch, o eleni ymlaen, bod angen cadw lle ar hyfforddiant/
cyrsiau ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen cadw lle ar hyfforddiant
newydd.**

**Mae'r ffurflen ar gael yn adran y Gwasanaeth
Mynediad a Chynhwysiant ar wefan RhCT:**

<https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=url5xeqAE6ITjrUN9dAniC17CrY74pDmrZsfMIP8AxUM05YTIJCSTM1Vk0wSVpEVVJNV0FSWjISy4u>



Hyfforddiant Tymor yr Hydref Sesiynau rhithwir fydd yn cael eu cynnal ar Microsoft Teams

Dyddiadau	Cwrs	Cost
20 Hydref a 3 Rhagfyr	Fforwm Cydlynwyr AAA	Am ddim
6 Tachwedd	Bodloni'ch dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb ar gyfer Dysgwyr sydd ag Anghenion Corfforol a Meddygol (hanner diwrnod)	£60
23 Tachwedd	Asesu'r risg i ddisgyblion sydd ag anabledd corfforol – canllaw i uwch arweinwyr	£25
10 a 11 Tachwedd	Codi a Chario Disgyblion sydd ag Anghenion Arbennig	£250
12 Tachwedd	Codi a Chario Disgyblion sydd ag Anghenion Arbennig – Cwrs Gloywi	£130
13 Hydref	Creu amgylchedd galluogi ar gyfer disgyblion synhwyraidd (Nam ar y Golwg)	£60—Am ddim i ysgolion sydd â disgyblion sy'n gofyn am gymorth Categori C
8 Hydref	Cefnogi staff i godi safonau ar gyfer disgyblion â nam ar y clyw	£60—Am ddim i ysgolion sydd â disgyblion sy'n gofyn am gymorth Categori C
23 Hydref	Attention Autism (diwrnod llawn)	£130
17 Tachwedd	Anawsterau Dysgu Cymhleth mewn dosbarthiadau'r brif ffrwd i Gynorthwywyr Cymorth Dysgu	£60
26 Tachwedd	Rhoi cymorth i blant sydd ag arwyddion ADHD	£60
2 Tachwedd	Datblygu a dangos tystiolaeth o ymateb graddedig effeithiol ysgol ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol (SEBD).	£60
27 Tachwedd	Dewisiadau eraill yn lle gwahardd	£60
19 Tachwedd	Arferion ardderchog mewn ysgolion cynradd i hwyluso ymddygiad ar gyfer dysgu	£60
22 Hydref 10 Rhagfyr	Strategaethau lliniaru i aelodau o staff ysgolion	£60

Hyfforddiant Tymor y Gwanwyn
Mae hyfforddiant wyneb yn wyneb yn amodol ar lacio cyfyngiadau'r llywodraeth
(serch hynny, mae cynllun wrth gefn i gynnal cyrsiau ar-lein)

Dyddiadau	Cwrs	Cost
9 Chwefror, 11 Mawrth	Fforwm Cydlynwyr AAA	Am ddim
14 Ionawr 8 Mawrth	Bodloni'ch dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb ar gyfer Dysgwyr sydd ag Anghenion Corfforol a Meddygol (hanner diwrnod)	£60
4 Chwefror	Aesu'r risg i ddisgyblion sydd ag anabledd corfforol – canllaw i uwch arweinwyr	£25
l'w gadarnhau	Codi a Chario Disgyblion sydd ag Anghenion Arbennig	£250
l'w gadarnhau	Codi a Chario Disgyblion sydd ag Anghenion Arbennig – Cwrs Gloywi	£130
2 Chwefror	Creu amgylchedd galluogi ar gyfer disgyblion synhwyrdd (Nam ar y Golwg)	£60—Am ddim i ysgolion sydd â disgyblion sy'n gofyn am gymorth Categori C
4 Chwefror	Cefnogi staff i godi safonau ar gyfer disgyblion â nam ar y clyw	£60—Am ddim i ysgolion sydd â disgyblion sy'n gofyn am gymorth Categori C
11 Chwefror	Awtistiaeth – Arferion Da (diwrnod llawn)	£130
26 Ionawr	Awtistiaeth – Arferion Da (hanner diwrnod)	£60
19 Mawrth	Attention Autism (diwrnod llawn)	£130
26 Chwefror	Cyfathrebu Cymdeithasol: Cerrig Milltir a Strategaethau'r Blynnydoedd Cynnar (diwrnod llawn)	£130
5 Mawrth	Disgyblion Ysgolion Uwchradd sydd ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistaidd (hanner diwrnod)	£130
10 Chwefror	POPAT – cyfrwng Saesneg	£180 yn ogystal â ffi adnoddau ychwanegol o £50
12 Chwefror	POPAT – cyfrwng Cymraeg	£180 yn ogystal â ffi adnoddau ychwanegol o £50
19 Chwefror	Prawf Sgrinio Cynnar am Ddyslecsia (DEST)-2 / Llythrennedd Ymarferol	£60
23 a 25 Chwefror 16 a 18 Mawrth	Literacy Launch Pad - 5 sesiwn	£340 am 5 sesiwn (rhaid mynychu pob un o'r 5 sesiwn)
20 Ebrill	Strategaethau Mathemateg i ddysgwyr sy'n cael trafferth (peilot)	£130
3 Chwefror	<i>Active Literacy Kit (ALK)</i>	£130
4 Ionawr	Cefnogi Dysgwyr sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol (cwrs newydd)	£60
21 Ionawr a 18 Mawrth	Rhoi cymorth i blant sydd ag arwyddion ADHD	£60
14 Ionawr a 4 Mawrth	Datblygu a dangos tystiolaeth o ymateb graddedig effeithiol ysgol ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol (SEBD).	£60
4 Chwefror 25 Mawrth	Dewisiadau eraill yn lle gwahardd	£60
7 Ionawr	Arferion ardderchog mewn ysgolion cynradd i hwyluso ymddygiad ar gyfer dysgu	£60
28 Ionawr 25 Mawrth	Strategaethau lliniaru i aelodau o staff ysgolion	£60

Hyfforddiant Tymor yr Haf

Mae hyfforddiant wyneb yn wyneb yn amodol ar lacio cyfyngiadau'r llywodraeth (serch hynny, mae cynllun wrth gefn i gynnal cyrsiau ar-lein)

Dyddiadau	Cwrs	Cost
14 Mai 24 Mehefin	Fforwm Cydlynwyr AAA	Am ddim
I'w gadarnhau	Bodloni'ch dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb ar gyfer Dysgwyr sydd ag Anghenion Corfforol a Meddygol (hanner diwrnod)	£60
10 Mai	Asesu'r risg i ddisgyblion sydd ag anabledd corfforol – canllaw i uwch arweinwyr	£25
I'w gadarnhau	Codi a Chario Disgyblion sydd ag Anghenion Arbennig	£250
I'w gadarnhau	Codi a Chario Disgyblion sydd ag Anghenion Arbennig – Cwrs Gloywi	£130
6 Mai	Creu amgylchedd galluogi ar gyfer disgyblion synhwyrdd (Nam ar y Golwg)	£60—Am ddim i ysgolion sydd â disgyblion sy'n gofyn am gymorth Categori C
4 Mai	Cefnogi staff i godi safonau ar gyfer disgyblion â nam ar y clyw	£60—Am ddim i ysgolion sydd â disgyblion sy'n gofyn am gymorth Categori C
13 Mai	Awtistiaeth – Arferion Da (diwrnod llawn)	£130
20 Ebrill	Awtistiaeth – Arferion Da (hanner diwrnod)	£60
9 Gorffennaf	Attention Autism (diwrnod llawn)	£130
28 Mai	Cyfathrebu Cymdeithasol: Cerrig Milltir a Strategaethau'r Blynyddoedd Cynnar (diwrnod llawn)	£130
2 Gorffennaf	Disgyblion Ysgolion Uwchradd sydd ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistaidd (hanner diwrnod)	£130
	Prawf Sgrinio Cynnar am Ddyslecsia (DEST)-2 / Llythrennedd Ymarferol	£60
12 Gorffennaf (Hyfforddiant Canolog)	Literacy Launch Pad – 5 sesiwn	£340 am 5 sesiwn (rhaid mynychu pob un o'r 5 sesiwn)
20 Ebrill	Strategaethau Mathemateg i Ddysgwyr sy'n Cael Trafferth (cwrs pilot)	£130
12 Ebrill	Strategaethau sy'n addas i ddisgyblion â dyslecsia mewn dosbarthiadau'r brif ffrwd	£60
17 Mehefin	Rhoi cymorth i blant sydd ag arwyddion ADHD	£60
6 Mai 1 Gorffennaf	Datblygu a dangos tystiolaeth o ymateb graddedig effeithiol ysgol ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol (SEBD).	£60
17 Mehefin	Dewisiadau eraill yn lle gwahardd	£60
10 Mehefin 8 Gorffennaf	Arferion ardderchog mewn ysgolion cynradd i hwyluso ymddygiad ar gyfer dysgu	£60
13 Mai 15 Gorffennaf	Strategaethau lliniaru i aelodau o staff ysgolion	£60

Gwasanaeth Cynnal Dysgu – Hyfforddiant wedi'i Deilwra (ar gael ar gais)

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Syndrom Down
Hyfforddiant Cynlluniau Addysg Unigol
Wordshark (gan gynnwys disg adnoddau neu hebdo)
Numbershark (gan gynnwys disg adnoddau neu hebdo)
Ymwybyddiaeth Awtistiaeth
Anghenion Cymhleth (Cymraeg)
Anghenion Cymhleth (Saesneg)
Mynd i'r afael â Bwlio mewn ysgolion (1/2 diwrnod)
Y Dosbarth Anhwyllder Diffyg Canolbwytio a Gorfywiogrwydd ('ADHD') (1/2 diwrnod - am)
Creu Amgylcheddau Cadarnhaol yn yr Ystafell Ddosbarth er mwyn Ymgysylltu â Phawb (Cynradd) (1/2 diwrnod - am)
Creu Amgylcheddau Cadarnhaol yn yr Ystafell Ddosbarth er mwyn Ymgysylltu â Phawb (Uwchradd) (1/2 diwrnod - pm)
Hybu Ymddygiad Cadarnhaol yn ystod Amser Cinio (1/2 diwrnod)

Cost Hyfforddiant wedi'i deilwra:

Diwrnod llawn – £500 (8 awr o hyfforddiant a pharatoi) fesul hwylusydd

Hanner diwrnod – £260 (hyd at 4 awr o hyfforddiant a pharatoi) fesul hwylusydd

Cyfradd awr – £65 fesul hwylusydd

Cysylltwch â'ch Athro/Athrawes Cynnal Ymddygiad i drafod ymhellach.

Fforwm Cydlynwyr AAA

Bydd yr Arweinydd Trawsnewid ADY, swyddogion cynhwysiant yr awdurdod lleol ac ysgolion yn cydweithio i sicrhau y bydd y rhaglen ddysgu broffesiynol yn cynnwys y canlynol:

- Darpariaeth gyffredinol effeithiol a diffiniad ADY
- Rhaglenni Datblygu Cynhwysiant peilot yr Awdurdod Lleol
- Nodi blaenoriaethau clwstwr o arolygon parodrwydd ysgolion Deddf ADY a datblygu'n sefydliad sy'n canolbwytio ar yr unigolyn
- Dadansoddi barn ysgolion ar waith paratoi strategol ar gyfer rôl y Cydlynwyr ADY
- Rheoli darpariaeth (arwain at fapio darpariaeth)
- Cynllunio ysgolion strategol ar gyfer rôl y Cydlynwyr ADY
- Fframwaith ADY ar gyfer hunan-werthuso a chynllunio gwelliannau
- Atebolrwydd
- Adrodd i lywodraethwyr

Hyfforddiant Anhwylder ar y Sbectrwn Awtistig (ASD)

Cynorthwyo disgyblion sydd ag Awtistiaeth

Cwrs hanner diwrnod

Cynorthwyo disgyblion sydd ag Awtistiaeth (trosolwg)

... cwrs hyfforddi hanner diwrnod ar gyfer Cynorthwyr Anghenion Arbennig a Chynorthwyr Cymorth Dysgu sy'n gweithio gyda phlant mewn ysgolion cynradd ac yn rhoi cymorth i blant sydd ag Awtistiaeth neu anawsterau cyfathrebu cymdeithasol.

Beth fydd cynnwys yr hyfforddiant?

- Strategaethau ymarferol y mae modd eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth
- Strategaethau gweledol sy'n gweithio i'r disgybl ac i chi
- Pŵer y cymhellwyr
- Straeon Cymdeithasol
- Helpu, saib ac aros

Cost: £60

Awtistiaeth – Arferion Da

Cwrs diwrnod llawn

Awtistiaeth - Arferion Da (trosolwg)

...diwrnod cyfan o hyfforddiant a fydd yn rhoi strategaethau ymarferol i athrawon wrth ymdrin â phlant sydd ag awtistiaeth neu anawsterau cyfathrebu cymdeithasol.

Beth fydd cynnwys yr hyfforddiant?

- Trosolwg o hanes awtistiaeth
- Edrych ar y pedwar maes allweddol o wahaniaeth a'r goblygiadau o ran arferion
- Strategaethau ymarferol y mae modd eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth gan gynnwys elfennau gweledol; gwobrau; straeon cymdeithasol; grwpiau cymdeithasol; graddfeydd ymddygiad a gweithgareddau synhwyraidd
- Gweithgareddau i helpu athrawon i werthuso eu harferion eu hunain a'u gwella

Cost: £130

Cyfathrebu Cymdeithasol: Cerrig Milltir a Strategaethau'r Blynyddoedd Cynnar

Cwrs diwrnod llawn

Cerrig Milltir a Strategaethau'r Blynyddoedd Cynnar (trosolwg)

...diwrnod cyfan o hyfforddiant a fydd yn rhoi strategaethau ymarferol i athrawon wrth ymdrin â phlant ag awtistiaeth neu anawsterau cyfathrebu cymdeithasol.

Beth fydd cynnwys y cwrs?

- Trosolwg cryno o awtistiaeth
- Archwilio i'r gwahaniaethiau allweddol a'r goblygiadau o ran arferion - gan gynnwys meini prawf diagnostig
- Cerrig milltir cyfathrebu cymdeithasol a sut i fynd ati i bontio'r bwloch
- Adnabod a gweithio gyda sensitifrwydd synhwyaidd
- Strategaethau ymarferol y mae modd eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth gan gynnwys elfennau gweledol; gwobrau; straeon cymdeithasol; PECS a gweithgareddau synhwyaidd
- Gweithgareddau a syniadau i helpu athrawon i fyfrio ar eu harferion eu hunain a'u gwella

Cost: £130

Attention Autism

Cwrs diwrnod llawn

Attention Autism (trosolwg)

...diwrnod o hyfforddiant a fydd yn rhoi gweithgareddau ysgogol i athrawon wrth ymdrin â phlant ag awtistiaeth neu anawsterau cyfathrebu cymdeithasol.

Beth fydd cynnwys yr hyfforddiant?

- Trosolwg ac esboniad o bedwar cam dull Attention Autism
- Cyfle i ymarfer gweithgareddau y mae modd eu defnyddio gyda grwpiau bach o blant
- Sut i gynllunio ymyrraeth a'i rhoi ar waith
- Syniadau Attention Autism ar gyfer camau 2 a 3

Cost: £130

Awtistiaeth mewn Ysgolion Uwchradd

Cwrs hanner diwrnod

Awtistiaeth mewn Ysgolion Uwchradd (trosolwg)

...diwrnod cyfan o hyfforddiant a fydd yn rhoi strategaethau ymarferol i staff wrth ymdrin â phlant ag awtistiaeth neu anawsterau cyfathrebu cymdeithasol.

Beth fydd cynnwys y cwrs?

Cynllunio cyfnod pontio llwyddiannus – rheoli'r pontio o ysgol gynradd i ysgol uwchradd.

Rheoli diwrnod y disgyblion – strategaethau pontio rhwng gwersi, amgylcheddau ystafelloedd dosbarth, strategaethau rheoli ystafelloedd dosbarth, cynllunio adfer os bydd pethau'n mynd o chwith

Strategaethau ymddygiad – ystyried effaith anghenion synhwyaidd, defnyddio a deall iaith a'i heffaith ar ymddygiad, dylanwad cyfoedion

Datblygu perthynas a chyfeillgarwch, strategaethau i feithrin rhwydweithiau cymorth i ddisgyblion, grwpiau cymdeithasol a strategaethau ar gyfer datrys gwrthdaro

Gwybyddiaeth a Dysgu

Literacy Launch Pad

Pedwar dyddiad a diwrnod hyfforddi canolog

Bydd y cwrs yma yn para rhwng tua 4 a 5 mis. Mae'n gyfuniad o ddiwrnodau hyfforddiant a gynhelir yn ganolog a monitro a chymorth yn yr ysgol. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn tystysgrif cyrhaeddiad y mae'r awdurdod lleol yn ei chydabod.

Dibenion y cwrs:

Galluogi'r hyfforddeion i gynnig ymyrraeth llythrennedd effeithiol i ddisgyblion yn ystod cyfnodau Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy o'r Cod Ymarfer AAA Rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i hyfforddeion ynglŷn â sut i weinyddu a dehongli asesiadau llythrennedd diagnostig

Galluogi'r hyfforddeion i gynllunio targedau a nodau dysgu priodol (e.e. targedau Cynlluniau Addysg Unigol), yn seiliedig ar ddeilliannau asesiadau diagnostig

Dysgu sut i gynllunio a strwythuro sesiynau ymyrraeth llythrennedd (ar gyfer grwpiau ac 1:1) sy'n effeithiol ac sy'n gweddu'n berffaith


Cael profiad ymarferol o ddarganfod amrediad eang o strategaethau ac adnoddau aml-synhwyrau ar gyfer dysgu

Bydd disgwyl i hyfforddeion weithio gyda grŵp o ddisgyblion dros gyfnod y cwrs

Rhaid mynychu'r pedwar dyddiad a'r hyfforddiant canolog.

Bydd ymweliadau cymorth ac adnoddau Cymraeg ar gael ar gyfer cynrychiolwyr cyfrwng Cymraeg

Cost: £340



POPAT – cyfrwng Cymraeg a Saesneg

Dau ddiwrnod llawn

Rhan un: Rhaglen addysgu strwythuredig, ddatblygiadol, ddilyniannol sy'n helpu i feithrin sgiliau llythrennedd drwy alluogi disgyblion i adnabod a thrin synau mewn geiriau, cyn cyflwyno llythrennau.

Pan y'i defnyddir gyda'r dosbarth cyfan o'r Dosbarth Meithrin/Derbyn ymlaen, gall adnabod dysgwyr sydd mewn perygl o gael anawsterau llythrennedd ac mae'n darparu strategaethau ar gyfer lleihau'r perygl hwnnw.

Mae modd ei ddefnyddio mewn modd diagnostig fel rhaglen ymyrraeth ar gyfer disgyblion hŷn (Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2) sydd eisoes yn cael anawsterau llythrennedd a gall fod yn adnodd defnyddiol ar gyfer pennu targedau CAU priodol.

Rhan dau: Dull strwythuredig o fynd i'r afael â'r geiriau mwyaf cyffredin a rheolau sillafu.

Cost: £230 (yn cynnwys adnoddau)



Prawf Sgrinio Cynnar am Ddyslecsia (DEST)-2 / Llythrennedd Ymarferol

Mae Llythrennedd Ymarferol yn adnodd sgrinio ac ymyrraeth sy'n nodi plant y cyfnod sylfaen sy'n wynebu perygl o feithrin sgiliau llythrennedd gwan yn gynnar, ac yn darparu ymyrraeth effeithiol ar gyfer y disgyblion yma.

Cwrs hyfforddi gloywi ar sut i ddefnyddio'r DEST-2 i asesu a chynllunio ymyrraeth ar gyfer plant y dosbarth derbyn sydd mewn perygl o wynebu anawsterau llythrennedd.

Cost: £60

**Strategaethau sy'n addas i ddisgyblion â dyslecsia mewn dosbarthiadau'r brif ffrwd
Hanner diwrnod**

(Hyfforddiant canolog/yn yr ysgol) Bydd yr hyfforddeion yn cael cyflwyniad i ystod o strategaethau a gweithgareddau y mae modd eu defnyddio i gynorthwyo disgyblion sydd â dyslecsia/anawsterau llythrennedd mewn dosbarthiadau'r brif ffrwd.

Cost: £60

**Anawsterau Dysgu Cymhleth mewn dosbarthiadau'r brif ffrwd i Gynorthwywyr
Cymorth Dysgu****Hanner diwrnod**

Bwriad y cwrs hanner diwrnod yma yw codi ymwybyddiaeth o anghenion disgyblion ag anawsterau dysgu cymhleth mewn dosbarthiadau'r brif ffrwd. Bydd yn darparu:

- Dealltwriaeth o anawsterau dysgu cymhleth a strategaethau ac adnoddau cymorth addas ar gyfer dosbarthiadau'r brif ffrwd
- Dealltwriaeth o'r problemau cymdeithasol ac emosiynol perthnasol

Cost: £60

Ymyrraeth Active Literacy Kit**Hanner diwrnod**

Cyflwyniad cam wrth gam i ddefnyddio'r Active Literacy Kit sy'n darparu cyfres o ymarferion wedi'u hamseru sy'n meithrin y sgiliau sylfaenol sy'n angenrheidiol ar gyfer darllen a sillafu'n awtomatig, rhugl a chywir. Mae plant yn cwblhau gweithgareddau wedi'u strwythuro'n ofalus yn seiliedig ar ganlyniadau prawf lleoliad diagnostig. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys gwybodaeth am yr wyddor, enw a sain llythrennau, odl a chyflythreniad a darllen a sillafu sylfaenol.

Ar gyfer grwpiau oedran 5+ (CA2, CA3, CA4).

Yn addas ar gyfer addysgu unigolion a grwpiau

Cost: £150 (yn cynnwys adnoddau)

Strategaethau Mathemateg i Ddysgwyr sy'n Cael Trafferth (cwrs hyfforddi peilot)

Hyfforddiant canolog yn unig – Bydd y cwrs yma'n cynnwys cyfuniad o hyfforddiant a gynhelir yn ganolog a monitro yn yr ysgol. Bwriad y cwrs yw galluogi gweithwyr dan hyfforddiant i asesu disgyblion a dadansoddi'r asesiad i gynllunio targedau dysgu addas sy'n seiliedig ar ddeilliannau asesu. Dysgu sut i gynllunio a strwythuro sesiynau ymyrraeth mathemateg wedi'u teilwra (ar gyfer grwpiau ac 1:1) sy'n effeithiol gan ddefnyddio ystod eang o adnoddau amlsynnwyr.

Cost: £130

Codi a Chario Disgyblion sydd ag Anghenion Arbennig

Codi a Chario Disgyblion sydd ag Anghenion Arbennig

Manylion y cwrs
Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu
Cyfnod: Cynradd, Uwchradd, Darpariaeth Arbennig
Targed: Cynorthwywyr Cymorth Dysgu, Cynorthwywyr Cymorth Anghenion Arbennig
Cost: £250

Disgrifiad o'r cwrs
Dyma gwrs 2 ddiwrnod sy'n ymdrin â symud a chodi a chario plant a phobl ifainc â nam symudedd. Nod y cwrs yw trafod holl ofynion damcaniaethol ac ymarferol Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario 1992 yn ogystal â'r deddfwriaethau eraill sy'n berthnasol i godi a chario mewn ysgolion prif ffrwd.

Bydd yr wybodaeth ddamcaniaethol ac ymarferol a gynigir ar y cwrs yn helpu Cynorthwywyr Cymorth Dysgu i gyflawni eu dyletswyddau codi a chario disgyblion yn ddiogel a chyfforddus.

Mae hyfforddiant gloywi undydd ar gael ar gyfer y cwrs hwn. Nod y cwrs yw diweddarau gwybodaeth ddamcaniaethol yr hyfforddiant craidd, ac mae rhan helaeth ohono'n canolbwyntio ar godi a chario ymarferol, gan adlewyrchu anghenion yr unigolyn dan sylw gyda dulliau datrys problemau. Am ragor o wybodaeth ynglŷn â dyddiadau ac argaeledd y cwrs, cysylltwch â:

mewnflwchcodiachario@rctcbc.gov.uk

**GWASANAETH
MYNEDIAD A
CHYNHWYSIANT
RHCT**

Tŷ Trevithick
Abercynon
Aberpennar
CF45 4UQ

Ffôn:
01443 744333
E-bost:
CynaMyn@rhondda-cynon-taf.gov.uk

Cwrs Gloywi Blyneddol – Codi a Chario Disgyblion sydd ag Anghenion Arbennig

Manylion y Cwrs
Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu
Cyfnod: Cynradd, Uwchradd ac Arbenigol Darpariaeth
Targed: Cynorthwywyr Cymorth Dysgu, Cynorthwywyr Cymorth Anghenion Arbennig
Cost: £130

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â dyddiadau ac argaeledd y cwrs, cysylltwch â:

MewnflwchCodiaChario@rctcbc.gov.uk



Cefnogi staff i godi safonau ar gyfer disgyblion â nam ar y clyw.

Manylion y Cwrs

Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu

Cynulleidfa Darged: Athrawon a staff cymorth

Cost: Am ddim i bob ysgol sydd â disgyblion â nam ar y clyw ar restr fonitro Carfan Materion

Synhwyrdd RhCT (neu ddisgyblion fydd ar y rhestr ar ôl pontio).

£60 fel arall.

Disgrifiad o'r cwrs:

Bwriad y cwrs hanner diwrnod yw gwella dealltwriaeth staff o anghenion disgyblion sydd â nam ar y clyw.

Argymhellion o ran ymwybyddiaeth o fyddardod

Sicrhau bod yr amgylchedd dysgu yn diwallu anghenion disgyblion sydd â nam ar y clyw

Gwybodaeth sylfaenol am brofion/colli clyw

Defnyddio cymhorthion clyw

**Bodloni'ch dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb ar gyfer Disgyblion ag Anghenion Corfforol a Meddygol**

Manylion y Cwrs

Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu

Cyfnod: Cynradd, Uwchradd

Cynulleidfa Darged: Athrawon, Uwch Garfan Rheoli, Cydlynwyr AAA

Cost: £60

Nodwch – nid cwrs codi a chario yw hwn

Disgrifiad o'r Cwrs

Bwriad y cwrs hanner diwrnod yma yw codi ymwybyddiaeth o anghenion disgyblion ag anawsterau corfforol a meddygol a goblygiadau ar ddysgu.

· Dyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

· Polisiâu a gweithdrefnau – cyfrifoldebau'r ALI a'r ysgol

· Heriau mae teuluoedd yn eu hwynebu

· Seddi ac offer

· Gofal personol, meddyginiaeth a rhaglenni unigol

**GWASANAETH
MYNEDIAD A
CHYNHWYSIANT
RHCT**

Tŷ Trevithick
Abercynon
Aberpennar
CF45 4UQ

Ffôn:
01443 744333

E-bost:
CynaMyn@rhondda
-cynon-taf.gov.uk



Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad

Helpu plant sydd ag Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd ('ADHD')

Rhesymeg:

Cynulleidfa:

Amlinelliad o'r cwrs:

- Beth rydyn ni'n ei wybod? Beth ydyn ni'n ei weld?
- Effaith ADHD ar weithredu cyffredinol
- Newidiadau i ystafelloedd dosbarth
- Cynnal gwersi
- Strategaethau ar gyfer rheoli ymddygiad

Hyd y Cwrs: 3 awr

Cynhelir y cwrs gan y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad.

Strategaethau lliniaru i aelodau o staff ysgolion.

Rhesymeg:

Datblygu strategaethau lliniaru sy'n hwyluso perthnasau urddasol i barhau yn y dyfodol.

Cynulleidfa:

Cyrsiau wedi'u teilwra ar gyfer yr Uwch Garfan Rheoli a holl ymarferwyr ysgolion cynradd/ uwchradd.

Amlinelliad o'r cwrs:

Bwriad y cwrs yw datblygu sgiliau cyfranogwyr er mwyn lliniaru sefyllfaoedd anodd posibl yn ddiogel heb ddefnyddio ymyrraeth gorfforol gyfyngol. Gan gyfeirio'n rheolaidd at y dull gwrthdaro trogyloch, bydd cyfranogwyr yn meithrin dealltwriaeth o rôl hollbwysig emosiynau ar ein hymddygiad sy'n gallu effeithio ar y broses o wneud penderfyniadau.

Hyd y Cwrs: 3 awr

Cynhelir y cwrs gan y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad.

Arferion ardderchog mewn ysgolion cynradd i hwyluso ymddygiad ar gyfer dysgu

Rhesymeg:

Rhoi pwyslais ar gyfeiriad meddwl staff i ddarparu amgylchedd sy'n addas i ddysgu trwy ddull strwythuredig at reoli ymddygiad. Mae'r strategaethau wedi'u nodi yn cynnwys yr angen am barhad mewn dull sy'n seiliedig ar reolau, trefnau arferol, canlyniadau a dangos ymddygiad da.

Cynulleidfa:

Cynorthwywyr Cymorth Dysgu ac Athrawon.

Amlinelliad o'r cwrs:

1. Yr angen am strwythur yn ein hystafelloedd dosbarth
2. Hyblygrwydd o ran y strwythur er mwyn cael y gorau o bobl
3. Cynllunio ar gyfer ymddygiad/amgylchedd rhagweithiol
4. Monitro ymddygiad
5. Perthynas a Modelu Rôl

Hyd y Cwrs: 3 awr

Cynhelir y cwrs gan y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad.

Dewisiadau eraill yn lle gwahardd

Rhesymeg:

Mae gan waharddiad nifer o ganlyniadau i'r plentyn a'r teulu. Mae'n benderfyniad difrifol i bennaeth ei wneud. Mae'r cwrs yma yn amlinellu'r strategaethau amgen sydd ar gael i ysgolion y mae modd eu harchwilio cyn ystyried gwaharddiad.

Cynulleidfa:

Cynorthwywyr Cymorth Dysgu ac Athrawon.

Amlinelliad o'r cwrs:

Bwriad y cwrs yw datblygu gwybodaeth cyfranogwyr o'r strategaethau amgen sydd ar gael yn rhan o'r ymateb graddedig i waharddiad. Ar ddiwedd y cwrs yma, bydd modd i gyfranogwyr gydnabod y canlynol:

- Yr angen am Gynlluniau Cymorth Bugeiliol o safon sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn y lle cyntaf
- Yr angen am sgysiau adferol gan gynnwys cyfarfodydd ar ôl digwyddiadau
- Defnydd ac effeithiolrwydd gwaharddiadau mewnol
- Proses y symudiad wedi'i reoli
- Proses Apelio Annibynnol yn erbyn Gwaharddiad

Hyd y Cwrs: 3 awr

Cynhelir y cwrs gan y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad.

Datblygu a dangos tystiolaeth o ymateb graddedig effeithiol ysgol ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol (SEBD).

Rhesymeg:

Bydd y cwrs yn pwysleisio'r cyfeiriad meddwl ysgol gyfan tuag at addasu ymddygiad a sut mae modd i ymyrraethau wedi'u teilwra a'u targedu fod o fudd i ddisgyblion unigol a'r ysgol gyfan yn gyffredinol. Bydd cyfranogwyr yn datblygu dealltwriaeth o hygredded y dystiolaeth sydd ei hangen i ddangos effeithiolrwydd yr ymateb graddedig.

Cynulleidfa:

Cyrsiau wedi'u teilwra ar gyfer yr Uwch Garfan Rheoli ac holl ymarferwyr ysgolion cynradd/uwchradd.

Amlinelliad o'r cwrs:

Bydd modd i gyfranogwyr y cwrs nodi ymateb graddedig effeithiol ar gyfer plant sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol. Bwriad y cwrs yw datblygu gwybodaeth cyfranogwyr o ran yr angen am dull hyblyg tuag at addysgu plant sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol. Bydd gofyn i gyfranogwyr ddod â ffeil ddiennw o'u hymatebion ymyrraeth graddedig presennol.

Hyd y Cwrs: 3 awr

Cynhelir y cwrs gan y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad

Rhoi cymorth i blant sydd ag arwyddion ADHD

Cynulleidfa: Athrawon/Cynorthwywyr Cymorth Dysgu

Amlinelliad:

Beth rydyn ni'n ei wybod? Beth rydyn ni'n ei weld?

- Effaith ADHD ar weithrediad cyffredinol
- Addasiadau yn yr ystafell ddosbarth
- Cynnal y wers
- Strategaethau ar gyfer rheoli ymddygiad

Hyd y Cwrs: 3 awr

Gwasanaeth Seicoleg Addysg

Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg yn cynnig ystod o gyrsiau ar gyfer staff mewn ysgolion yn bennaf, o lywodraethwyr ac uwch reolwyr i athrawon a chynorthwywyr addysgu. Mae modd addasu'r cyrsiau yma i'w defnyddio gyda staff cyffredinol eraill y Cyngor.

Dyma'r cyrsiau wedi'u teilwra sydd ar gael:

Deall Ymlyniad a Chyweiriad ym Mhlant
Hyfforddiant Rheoli Emosiynau
Deall Cyflyrau Niwroddatblygiadol (Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD), Anhwylder ar y Sbectwm Awtistaidd (ASD))
Deall Anghenion Dysgu Ychwanegol
Datblygu Arfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn
Paratoi ar gyfer Diwygiad Anghenion Dysgu Ychwanegol
Paratoi a Chynllunio ar gyfer Digwyddiadau Difrifol mewn Ysgolion
Deall Profedigaeth a Cholled
Deall Hunanladdiadau a Hunan-niwed (mewn cydweithrediad â Bwrdd Diogelu Lleol Cwm Taf Morgannwg a phartneriaid y gwasanaeth cwnsela Eye to Eye)
Hyfforddiant i Gynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA)
Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA) i athrawon
Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA) i'r Blynyddoedd Cynnar
Fframwaith Lles PERMA
Gwrando Gweithredol a Chyfweld Ysgogiadol
Deall Gorbryder a Gwrthod Mynd i'r Ysgol
ELSA – Canllawiau Arfer Da i Uwch Garfanau Rheoli
Ymwybyddiaeth Ofalgar i Ysgolion
Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Ieuenctid (YMHFA)
Gorbryder a therapi gwybyddol ymddygiadol (CBT)

Hyd yr hyfforddiant i Gynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol yw 6 diwrnod dros dymor. Y gost yw £350 fesul person. Mae goruchwyliaeth yn cael ei darparu (2 awr bob hanner tymor). I gadw lle, cysylltwch â Ryan Phillips.
Mae modd addasu hyfforddiant a threfnu amser penodol.

Ar wahân i hyfforddiant ELSA, mae modd trefnu costau'r holl gyrsiau yn uniongyrchol gyda'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg. Byddai hyn yn dibynnu ar nifer y cyfranogwyr, pris y lleoliad ac adnoddau.

Hyfforddiant Emosiynau

Cyflwyniad hanner diwrnod i Athrawon Ysgolion Cynradd. Bydd yn ystyried:

- Pam mae angen Hyfforddiant Rheoli Emosiynau arnon ni?
- Beth yw Hyfforddiant Rheoli Emosiynau?
- Sut ydyn ni'n cynnal Hyfforddiant Rheoli Emosiynau?

Ymwybyddiaeth Ofalgar mewn Ysgolion

Manylion y Cwrs

Hwylusydd: Gwasanaeth Seicoleg Addysg

Cyfnod: Cynradd, Uwchradd

Cynulleidfa Darged: Athrawon, Cynorthwywyr Cymorth Dysgu, Cydlynwyr ADY a'r Uwch Garfan Rheoli

Cost: £75

Disgrifiad o'r Cwrs

Dyma sesiwn hyfforddi hanner diwrnod sy'n archwilio i ddulliau ymwybyddiaeth ofalgar mewn ysgolion. Caiff y rhain wella a hyrwyddo profiadau addysg cadarnhaol i athrawon a dysgwyr.

Cefnogi Hunan-barch Cadarnhaol Disgyblion

Manylion y Cwrs

Hwylusydd: Gwasanaeth Seicoleg Addysg

Cyfnod: Cynradd, Uwchradd

Cynulleidfa Darged: Athrawon, Cynorthwywyr Cymorth Dysgu, Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol

Cost: £75

Disgrifiad o'r Cwrs

Dyma sesiwn hyfforddi hanner diwrnod sy'n archwilio i ddatblygiad hunan-barch ac sy'n ystyried ei effaith ar ddysgu. Bydd y sesiwn yn cynnwys gweithgareddau/adnoddau ymarferol i helpu i godi hunan-barch disgyblion, gwella eu cydnherthedd a gwella deilliannau.

Ymlyniad yn yr Ystafell Ddosbarth

Manylion y Cwrs

Hwylusydd: Gwasanaeth Seicoleg Addysg

Cyfnod: Cynradd, Uwchradd

Targed: Athrawon, Cynorthwywyr Cymorth Dysgu, Cydlynwyr ADY a'r Uwch Garfan Rheoli

Cost: £75

Disgrifiad o'r cwrs

Dyma sesiwn hyfforddi hanner diwrnod i wella dealltwriaeth staff o effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod cynnar ac ymlyniadau bregus. Bydd theori ac ymchwil seicolegol yn cael eu hystyried mewn perthynas â phrofiadau bob dydd yn yr ystafell ddosbarth. Bydd y sesiwn yn cynnwys gweithgareddau/syniadau ymarferol i gefnogi disgyblion yn yr ystafell ddosbarth.

**GWASANAETH
MYNEDIAD A
CHYNHWYSIANT
RHCT**

Cyfeiriad:
Tŷ Trevithick
Abercynon
Aberpennar
CF45 4UQ

Ffôn:
01443 744333
E-bost:
CynaMyn@rhondda
-cynon-taf.gov.uk

Gwefan:
www.rctcbc.gov.uk

Ffoniwch 01443 744333 am ragor o wybodaeth.

Y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant – Telerau ac Amodau

Mae'r telerau a'r amodau canlynol yn berthnasol i'r amserlen hyfforddi wedi'i darparu ar gyfer y flwyddyn academaidd yma. Mae derbyn ffurflenni trefnu lle ar gwrs gennych yn cadarnhau eich bod yn derbyn yr amodau hyn.

Telerau talu

Nodir cost pob cwrs gerllaw'r cwrs perthnasol. Mae'r ffi cadw lle yn cynnwys unrhyw gostau o ran llogi ystafell, lluniaeth a chostau gweinyddol.

**Cofiwch nad oes modd ad-dalu unrhyw ffioedd cadw lle unwaith mae eich lle ar y cwrs wedi'i gadarnhau. Bydd ysgolion â llyfr siec yn derbyn anfoneb allanol gan Ronda Cynon Taf. Bydd ysgolion heb lyfr siec yn gweld bod didyniad wedi'i wneud drwy drosglwyddiad trwy'r llyfrau gan Swyddfa Gyllid yr Adran Addysg.

Sicrhewch eich bod chi'n nodi'n glir pa ran o'r cyllid yr hoffech chi'i defnyddio i dalu am yr hyfforddiant**

Cadarnhau lle wedi'i gadw

Mae modd cadw lle ar-lein trwy gwblhau'r ffurflen cadw lle berthnasol ar y wefan.

<https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/SchoolsandLearning/AccessandInclusiontoEducation/Training/Training.aspx>

Bydd y lleoedd wedi'u dyrannu yn cael eu cadarnhau trwy e-bost. Byddwn ni'n anfon y cadarnhad i'r cyfeiriad e-bost wedi'i nodi ar y ffurflen cadw lle.

Canslo neu Beidio â Mynychu

Os na all unigolion fod yn bresennol yn y cwrs, ffoniwch 01443 744333 i roi gwybod i'r gwasanaeth cyn gynted â phosibl. Fydd ffioedd y cwrs ddim yn cael eu had-dalu. Serch hynny, gall ysgolion anfon cynrychiolydd arall heb unrhyw gost ychwanegol.

Mae rhaid cadarnhau eich bod yn canslo eich lle ar y cwrs mewn e-bost.

Canslo cyrsiau

Mae gan y Gwasanaeth yr hawl i ganslo cwrs hyfforddi neu newid yr hwylusydd. Os caiff cwrs ei ganslo, bydd y gwasanaeth yn rhoi gwybod i gynrychiolwyr gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar y ffurflen cadw lle.

Trosglwyddo

Ni chaiff cynrychiolwyr drosglwyddo ffioedd cadw lle i gwrs arall dan unrhyw amgylchiadau.

Gwerthuso

Gofynnir i'r holl gynrychiolwyr gwblhau ffurflen werthuso'r cwrs hyfforddi; bydd yr wybodaeth a ddarperir yn helpu i wella'r hyfforddiant a gynigir a'r modd y caiff ei gyflawni yn y dyfodol. Caiff ffurflen werthuso ar ôl yr hyfforddiant ei hanfon at rai cynrychiolwyr yn ystod y tymor canlynol er mwyn mesur effaith yr hyfforddiant a gawsant.